
# Lleisiau Coll

## Llyfr Achosion Arfer Gorau



Commisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

Mae'r adroddiad hwn ar gael mewn fformatau eraill drwy ffonio 01792 765600 neu ebostio cyhoeddiadau@complantcymru.org.uk

Cyhoeddwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru, 2013

Dyluniwyd gan elfen.co.uk

Cyflwyniad 4

Dealltwriaeth o Eiriolaeth 7

Ymwneud Plant a Phobl Ifanc â Datblygu ac adolygu Gwasanaethau 20

Mynediad at Eiriolaeth 26

Arweinyddiaeth Strategol 29

Rheoleiddio, Arolygu a Monitro 31

Cysylltiadau Defnyddiol 34

**Yn 2011/12, cynhaliodd Comisiynydd Plant Cymru adolygiad statudol o wasanaethau eiriolaeth proffesiynol annibynnol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, rhai sy'n gadael gofal a phlant mewn angen yng Nghymru.**

**Dyma'r tro cyntaf i'r Comisiynydd presennol, Keith Towler, ddefnyddio ei bwerau sy'n deillio o adran 73 o Ddeddf Safonau Gofal 2000. Diben yr adolygiad oedd canfod pa mor effeithiol yw'r trefniadau ar gyfer diogelu a hyrwyddo hawliau a lles plant a phobl ifanc.**

Fe wnaeth yr adolygiad ymdrin â threfniadau Gweinidogion Cymru ac awdurdodau lleol yng Nghymru ac fe amlinellwyd trefniadau'r adolygiad yn y cylch gorchwyl (sydd ar gael o'n gwefan www.complantcymru.org.uk/cy/eiriolaeth)

Cyhoeddwyd Lleisiau Coll, adroddiad yr adolygiad, ym mis Mawrth 2012, ac roedd yn cynnwys 29 argymhelliad ar gyfer Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru.

Mae'r wybodaeth yn y llyfr achosion arfer gorau yma wedi'i selio ar yr holdiaduron wnaeth bob awdurdod lleol gwblhau fel rhan o'r adolygiad yn 2011 yn ogystal â'u hymatebion swyddogol i argymhellion yr adolygiad.

Ar ôl ei gyhoeddi, cynhaliodd y Swyddfa bedair seminar ar gyfer ymarferwyr allweddol lle bu tîm y Comisiynydd yn cytuno i ddarparu llyfr achosion o arfer gorau. Nod y llyfr achosion hwn yw lledaenu'r wybodaeth a'r mewnwelediad a gafwyd yn ystod proses yr Adolygiad, a nodi arfer gan awdurdodau lleol a darparwyr eiriolaeth y mae'r Swyddfa'n teimlo y byddai o gymorth ei rannu. Fe'i lluniwyd i gyd-fynd ag elfennau allweddol o'r adolygiad, yn cynnwys:

- **Dealltwriaeth o Eiriolaeth**
- **Ymwneud Plant a Phobl Ifanc â Datblygu ac Adolygu Gwasanaethau**
- **Mynediad at Eiriolaeth**
- **Arweinyddiaeth Strategol**
- **Rheoleiddio, Arolygu a Monitro**

Y gobaith yw y bydd cynnwys y llyfr achosion hwn ac adroddiad yr adolygiad yn helpu i ddylanwadu ar arfer yn y dyfodol ledled Cymru, er mwyn sicrhau bod gwasanaethau eiriolaeth proffesiynol annibynnol mor effeithiol â phosibl wrth gryfhau a hybu hawliau a diogelu lles y plant a'r bobl ifanc hyn, sydd mor agored i niwed.

## 1. Dealltwriaeth o Eiriolaeth

**Daeth yr adolygiad i'r casgliad fod diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r term 'eiriolaeth' yn berthnasol i blant a phobl ifanc, gweithwyr proffesiynol a'r oedolion hynny sy'n gofalu am blant a phobl ifanc.**

### 1.1 Dealltwriaeth plant a phobl ifanc

**Nid oedd llawer o'r plant a'r bobl ifanc a ymatebodd i'r adolygiad yn deall ystyr y term 'eiriolaeth'/'advocacy'.**

"Chlywais i rioed amdano fe – mae'n swnio fel afiechyd"

"Wi'n gwbod beth yw e achos wi'n gwylio CSI Miami"

"Avocado?"

"Doeddwn i ddim yn deall yr ystyr o'r gair "Eiriolaeth" ei hun. Roedd rhaid i fi gael esboniad"

**Argymhellion yr Adolygiad**
Yn achos awdurdodau lleol, gweler argymhellion: 1, 2, 14, 18
(www.complantcymru.org.uk/cy/eiriolaeth)

## Arfer Da

Dyma ddetholiad o sut mae rhai awdurdodau lleol a darparwyr eiriolaeth yn hyrwyddo eiriolaeth ymhlith plant a phobl ifanc.

### Sut mae awdurdodau lleol a darparwyr yn hyrwyddo...

Mae **Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent** a'r **Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS)** wedi cynhyrchu DVD hyrwyddo, a ddatblygwyd mewn partneriaeth â phlant a phobl ifanc.

Mae **Cyngor Sir Caerfyrddin** wedi galluogi grŵp o blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal o bob rhan o'r sir i gynhyrchu deunyddiau hyfforddi ar gyfer gofalwyr maeth, gweithwyr cymdeithasol ac athrawon. Maen nhw wedi cynhyrchu dau gyflwyniad PowerPoint gyda cherddoriaeth gefndir, yn cynnwys un am KICCIT! – siarter ar gyfer pobl ifanc sy'n derbyn gofal i gynyddu ymwybyddiaeth o'u hawliau ac i helpu pobl i ddeall sut gallan nhw leisio barn. Mae'r plant a'r bobl ifanc yn defnyddio'r term 'sefyll i fyny, codi llais' i ddisgrifio 'eiriolaeth'. I gyd-fynd â'r PowerPoint ac i helpu i gynyddu ymwybyddiaeth o 'sefyll i fyny, codi llais', maen nhw wedi datblygu posteri graffiti.

Mae **Cyngor Sir Ddinbych** yn bwriadu ymgynghori â phlant a phobl ifanc sydd wedi defnyddio eu gwasanaeth eiriolaeth i gael hyd i ffordd newydd o ddisgrifio rôl eiriolwr. Bydd yr awdurdod yn defnyddio'r awgrymiadau a gesglir trwy'r ymgynghoriad i gyflwyno'r gwasanaeth i blant a phobl ifanc y gallai fod angen cefnogaeth eiriolwr arnynt yn y dyfodol.

Mae **Cyngor Sir y Fflint** yn cynnal digwyddiadau ymgynghori â phlant a phobl ifanc yn rheolaidd, lle defnyddir cwisiau difyr i weld a yw plant a phobl ifanc yn deall rôl eiriolwr. Mae'r darparwr eiriolaeth lleol, NYAS, hefyd yn rhoi bagiau anrheg yn y digwyddiadau hyn, gyda deunydd hyrwyddo fel pinnau sgrifennu, radios, tedis a thaflenni sy'n apelio i ystod o wahanol oedrannau. Mae NYAS hefyd yn cyhoeddi llythyr newyddion ddwywaith y flwyddyn fel rhan o'i gontract gyda'r awdurdod. Mae hwn yn cael ei anfon drwy'r post at yr holl blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal, ac mae'n gyfuniad o ddeunydd addysgiadol a difyr.

## Sut mae awdurdodau lleol a darparwyr yn cynhyrchu deunyddiau hygyrch…

Mae **Cyngor Sir Caerfyrddin** yn gofyn bod ei ddarparwr eiriolaeth – Gweithredu dros Blant ar hyn o bryd – yn cwrdd â phlant a phobl ifanc cymwys i egluro'r gwasanaeth a rôl eiriolwr. Mae hon wedi bod yn system effeithiol ar gyfer helpu plant a phobl ifanc i ddeall y gwahaniaeth rhwng y gefnogaeth a gynigir gan y Gweithiwr Cymdeithasol a'r gefnogaeth y mae eiriolwr proffesiynol annibynnol yn gallu ei gynnig.

Mae **Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy** fel ei gilydd yn cynhyrchu amrywiaeth o wybodaeth arbenigol ar gyfer plant a phobl ifanc sydd ag anableddau dysgu ac anawsterau cyfathrebu, mewn fformatau y byddant yn gallu eu deall. Cyflwynir y taflenni ar ffurf symbolau a 'widgets'. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili hefyd yn cyflogi eiriolwr penodol, sydd â sgiliau cyfathrebu a phecynnau offer arbenigol, ar gyfer plant a phobl ifanc ag anableddau.

Mae **Cyngor Sir Penfro** yn darparu gwybodaeth am eu hawl i eiriolaeth i bob plentyn sy'n cael ei wahardd o'r ysgol, a hefyd fanylion am sut mae cyrchu'r gwasanaeth a gomisiynir yn lleol. Cynhwysir manylion ynghylch sut mae cael mynediad i'r gwasanaeth eiriolaeth annibynnol mewn llythyron a anfonir allan fel rhan o'r broses wahardd. Hefyd mae hysbysfwrdd eiriolaeth yn cael ei ddarparu yn uned atgyfeirio disgyblion yr awdurdod.

Mae **Cyngor Dinas a Sir Abertawe**, mewn ymgynghoriad â phlant a phobl ifanc, wedi datblygu amrywiaeth o daflenni gwybodaeth addas ar gyfer gwahanol oedrannau, sy'n rhan o Becyn Gofal Abertawe. Mae'r wybodaeth hon hefyd ar gael ar wefan yr awdurdod ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal: www.swansealeavingcare.com

Mae **Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam** wedi darparu hyfforddiant Symleiddio Iaith i helpu staff sy'n cynnal swyddogaethau gwybodaeth i gwsmeriaid. Mae hefyd wedi gweithio gyda Chyngor Plant mewn Gofal i helpu i ddylunio dogfennau sy'n hawdd i blant eu darllen.

## 1.2 Dealltwriaeth Gweithwyr Proffesiynol

**Er bod gan weithwyr proffesiynol rôl allweddol o ran hybu mynediad at eiriolaeth broffesiynol annibynnol, a dealltwriaeth ohoni, nododd yr adolygiad fod angen gwella dealltwriaeth o fanteision eiriolaeth broffesiynol annibynnol. Ymddengys bod hyn yn cael ei gadarnhau gan y cyfraddau atgyfeirio isel ar draws y wlad a'r dystiolaeth gan blant a phobl ifanc y bydden nhw wedi hoffi cael mynediad i wasanaeth, ond nad oeddent yn ymwybodol ohono.**

**Argymhellion yr Adolygiad**
Yn achos awdurdodau lleol, gweler argymhellion: 3,4, 8, 9, 21
(www.complantcymru.org.uk/cy/eiriolaeth)

## Arfer Da

Dyma ddetholiad o sut mae rhai awdurdodau lleol a darparwyr eiriolaeth yn hyrwyddo eiriolaeth ymhlith staff hen a newydd a gweithwyr proffesiynol eraill.

## Sut mae awdurdodau lleol a darparwyr yn hyrwyddo…

Mae **Cyngor Sir Ynys Môn** yn datblygu strategaeth ymgynghori a chyfranogiad a fydd yn manylu ar sut y bydd yn mwyafu eiriolaeth, ymgynghori a chyfraniad ar bob lefel o ymwneud â phlant a phobl ifanc.

Mae **Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili** yn gweld ei ddarparwr eiriolaeth lleol, NYAS, yn darparu hyfforddiant sefydlu ar gyfer staff gwaith cymdeithasol, gofal maeth, troseddau ieuenctid a staff preswyl.

Mae gan NYAS hefyd hysbysfyrddau mewn mannau allweddol, yn cynnwys cartrefi plant, canolfannau timau gofal maeth ac ysgolion. Mae deunydd cyhoeddusrwydd yn cael ei ddosbarthu'n helaeth ar draws canolfannau timau, ac mae blychau postio arbennig wedi cael eu gosod fel bod modd i weithwyr cymdeithasol bostio awgrymiadau ar gyfer gwella gwasanaethau.

Mae **Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy** yn gweld ei ddarparwr eiriolaeth lleol yn mynychu grwpiau gofalwyr maeth yn yr ardal er mwyn sicrhau bod proffil eiriolaeth yn parhau'n uchel ac i gynyddu ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth ymhlith gofalwyr newydd.

Mae **Cyngor Sir y Fflint** yn gofyn bod ei ddarparwr eiriolaeth yn cyflwyno hyfforddiant blynyddol ar hawliau plant i staff a gofalwyr maeth. Mae NYAS, y darparwr eiriolaeth, yn cynnwys plant a phobl ifanc yn yr hyfforddiant i helpu i sicrhau ei fod yn cynnal diddordeb ac yn gofiadwy.

Hefyd ymgynghorir â thimau gwaith cymdeithasol ar draws y sir cyn adolygu'r gwasanaeth eiriolaeth, er mwyn casglu adborth cadarnhaol a negyddol.
Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr yn hysbysu ei ofalwyr maeth a'i ofalwyr sy'n berthnasau am eiriolaeth fel rhan o'i broses asesu. Mae eiriolaeth hefyd yn rhan o agenda oruchwylio'r awdurdod bob 6 wythnos rhwng y gofalwr maeth/sy'n berthynas a'r gweithiwr cymdeithasol sy'n goruchwylio.

Mae **Cyngor Sir Fynwy a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy** fel ei gilydd yn gofyn bod eu gweithwyr cymdeithasol yn cwrdd â'r darparwr eiriolaeth fel rhan o'u rhaglen sefydlu. Mae hyn yn rhoi cyfle i drafod manteision eiriolaeth yn llawn ac i bob gweithiwr cymdeithasol ddod i ddeall yn llawn hawl plant a phobl ifanc i gyrchu gwasanaethau eiriolaeth.

Mae **Cyngor Sir Penfro** wedi sicrhau bod ei lawlyfr Polisi a Gweithdrefnau Gofal Plant yn cyfeirio'n benodol at eiriolaeth yn y polisïau a'r gweithdrefnau sy'n ymwneud â chynadleddau amddiffyn plant, adolygiadau PDG, Ymwelwyr Annibynnol a chwynion yn erbyn gofalwyr maeth.

Mae **Cyngor Sir Powys** yn gweld ei ddarparwr eiriolaeth, Tros Gynnal, yn mynychu cyfarfodydd allweddol o'r gwasanaethau plant er mwyn hyrwyddo'r gwasanaeth, h.y. is-grŵp Plant ag Anableddau yn y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc, y cyfarfod rhianta corfforaethol, cyfarfod y darparwyr preswyl annibynnol. Mae'r darparwr hefyd yn cefnogi gwaith y Bwrdd Lleol Diogelu Plant iau, Eat Carrots: Be Safe from Elephants.

Mae **Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf** wedi gofyn i'w ddarparwr eiriolaeth, Tros Gynnal, gysylltu â'r gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion, 'Eye to Eye', i sicrhau bod plant a phobl ifanc y gallai fod angen eiriolwr arnyn nhw yn cael eu gwneud yn ymwybodol o'r gwasanaeth yn ystod eu cysylltiad â'r cwnsler yn yr ysgol.

Mae **Cyngor Dinas a Sir Abertawe** wedi cynhyrchu llawlyfr ymarfer plant a theuluoedd i helpu gweithwyr cymdeithasol yr awdurdod gyda meysydd ymarfer allweddol. Mae'r llawlyfr yn cynnwys pennod ar eiriolaeth lle caiff ei diben a'i manteision eu hegluro, a darperir dolen i'r safonau cenedlaethol.

Bwriad **Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen** yw sicrhau bod eiriolaeth yn derbyn sylw penodol fel eitem sefydlog gyda gofalwyr maeth trwy eu grwpiau goruchwyliaeth a chefnogi.

## 1.3 Dealltwriaeth rhieni corfforaethol

**Yn ystod yr adolygiad cynhaliwyd cyfarfodydd gydag aelodau etholedig oedd â chyfrifoldeb cabinet am blant a phobl ifanc. Er bod yr holl aelodau a gafodd gyfweliad yn gwybod am eu gwasanaeth eiriolaeth lleol, roedd eu gwybodaeth am y gwasanaeth a'u dealltwriaeth ohono yn amrywio'n sylweddol.**

**Argymhellion yr Adolygiad**
Yn achos awdurdodau lleol, gweler argymhellion: 5, 6, 16 (www.complantcymru.org.uk/cy/eiriolaeth)

**Arfer Da**

Dyma ddetholiad o sut mae rhai awdurdodau lleol a darparwyr eiriolaeth yn hyrwyddo eiriolaeth ymhlith rhieni corfforaethol.

**Sut mae awdurdodau lleol a darparwyr yn hyrwyddo…**

Mae **Cyngor Sir Ceredigion** yn gweld ei ddarparwr eiriolaeth, Tros Gynnal, fel aelodau llawn o'r grŵp rhianta corfforaethol. Mae'r darparwr hefyd yn cyflwyno adroddiadau chwarterol i'r grŵp. Nododd **Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili,** a **Chyngor Bro Morgannwg** hefyd fod eu darparwr eiriolaeth lleol yn mynychu eu paneli rhianta corfforaethol.

Mae **Cyngor Sir y Fflint** yn cynnal gwobrau 'Balchder Sir y Fflint' yn flynyddol ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal, a gwahoddir pob cynghorydd sir iddynt. Mae cwrdd â phlant a phobl ifanc wyneb yn wyneb a chlywed eu hanesion cyflawniad personol wedi helpu i godi proffil rhianta corfforaethol, a hefyd i gynyddu dealltwriaeth o'r heriau mae rhai plant a phobl ifanc yn eu hwynebu.

Mae **Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot** yn hyfforddi ei holl aelodau etholedig ar gyfrifoldebau corfforaethol fel rhan o'i raglen sefydlu i'r aelodau. Nododd **Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam** a **Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili** hefyd fod eiriolaeth yn rhan o'u hyfforddiant rhianta corfforaethol.

Mae **Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf** yn gweld ei ddarparwr eiriolaeth lleol, Tros Gynnal, yn mynychu diwrnodau agored i aelodau ac yn cwrdd ag aelodau sydd â phortffolios perthnasol.

Mae **Cyngor Bro Morgannwg** yn rhoi llawlyfr rhianta corfforaethol i bob aelod etholedig, ac mae hwnnw'n cynnwys adran benodol ar eiriolaeth.

## 2. Ymwneud Plant a Phobl Ifanc â Datblygu ac Adolygu Gwasanaethau

**Mae'r safonau cenedlaethol ar gyfer darparu eiriolaeth i blant a phobl ifanc yn amlygu bod:**

**Eiriolaeth yn cael ei harwain gan farn a dymuniadau plant a phobl ifanc; rhoddir help i blant a phobl ifanc os byddant yn dymuno hynny yn unig. Mae'n bwysig iawn bod gan blant a phobl ifanc reolaeth ar y berthynas eiriolaeth. (Safonau Eiriolaeth Llywodraeth Cymru, 2003)**

**Argymhellion yr Adolygiad**
Yn achos awdurdodau lleol, gweler argymhelliad: 17
(www.complantcymru.org.uk/cy/eiriolaeth)

**Arfer Da**

Dyma ddetholiad o sut mae rhai awdurdodau lleol a darparwyr eiriolaeth yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn ymwneud â phob agwedd ar ddatblygu ac adolygu'r gwasanaeth eiriolaeth.

Mae **Cyngor Sir Ynys Môn** wedi gofyn i'w ddarparwr eiriolaeth ddatblygu cyfarfodydd chwarterol gyda phanel o blant a phobl ifanc i hybu eu llais ac i sicrhau bod yr awdurdod yn derbyn adborth ynghylch effeithiolrwydd ei ddarpariaeth eiriolaeth.

Mae **Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent** wedi comisiynu NYAS, ei ddarparwr eiriolaeth cyfredol, i gynnal trafodaethau gyda phob plentyn a pherson ifanc 10-18 oed sy'n derbyn gofal, er mwyn rhoi gwybod i staff y gwasanaeth plant a theuluoedd beth yw eu barn.

Mae **Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr** wedi gweld ei grŵp gorchwyl a gorffen rhanbarthol ar gyfranogiad yn datblygu cynllun gweithredu CAMPUS yn unol â'r safonau cyfranogiad cenedlaethol, gan sefydlu'n eglur sut bydd plant a phobl ifanc yn ymwneud â datblygiad y gwasanaeth eiriolaeth. Mae person ifanc sy'n gadael gofal yn aelod o'r bwrdd prosiect.

Mae **Cyngor Dinas Caerdydd** yn gwahodd plant a phobl ifanc i gymryd rhan yn adolygiad blynyddol y panel rhianta corfforaethol o'r gwasanaeth eiriolaeth ac ymweliad y panel rhianta corfforaethol â'r darparwr eiriolaeth.

Mae Tros Gynnal, y darparwr eiriolaeth cyfredol, yn hwyluso fforwm i'r rhai sy'n gadael gofal ac mae wedi recriwtio cyn-aelod o'r fforwm yn hwylusydd ar ei gyfer. Mae hyn yn darparu dilyniant a mantais persbectif defnyddiwr y gwasanaeth, gan sicrhau bod y gwaith yn cael ei lywio a'i arwain gan bobl ifanc. Mae'r fforwm yn cynhyrchu llythyr newyddion i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, ac anfonir hwnnw bob chwarter at bob plentyn a pherson ifanc dros 11 oed sy'n derbyn gofal.

Mae'r fforwm hefyd yn ymwneud â rhai prosiectau arloesol, yn cynnwys gwaith gydag oriel gelf leol ar brosiect celfyddydau cymunedol, lle bu aelodau o'r grŵp yn helpu i greu gweithiau celf mewn amrywiaeth o fformatau a fu wedyn yn cael eu harddangos yn yr oriel i'r cyhoedd eu gweld. Cyfarfu dau aelod o dîm Eiriolaeth Caerdydd â 33 o bobl ifanc o 9 gwlad Ewropeaidd wahanol ym Mrwsel i drafod a chyflwyno sut mae plant a phobl ifanc yn profi tlodi. Gyda'i gilydd, datblygwyd negeseuon allweddol ar gyfer llunwyr penderfyniadau, gan eu cyflwyno i gynrychiolwyr gwahanol sefydliadau yn yr UE trwy ffilm, animeiddio a dylunio graffeg.

Mae **Cyngor Sir Caerfyrddin** yn mynd i leoli ei wasanaeth eiriolaeth annibynnol fel rhan o uned hawliau plant y mae'n ei ddatblygu. Mae **Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot** eisoes wedi sefydlu uned hawliau plant sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a rhanddeiliaid eraill i godi ymwybyddiaeth o hawliau plant.

Mae **Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili** wedi gweld ei 'Shout out group', a hwylusir ar y cyd gan ei ddarparwr eiriolaeth cyfredol, NYAS, a'i swyddog hawliau plant yn datblygu siarter plant, hyfforddiant i weithwyr proffesiynol a digwyddiadau ymgynghori ar gyfer staff ac aelodau.

Mae Swyddog Cwynion **Cyngor Sir y Fflint** yn aelod sefydlog o grŵp cyfranogiad pobl ifanc yr awdurdod. Mae'r swyddog hefyd yn mynychu digwyddiadau ymgynghori 'codi llais' gyda phlant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal. Yng **Nghyngor Dinas a Sir Abertawe** mae eiriolwr Tros Gynnal yn mynychu grŵp cyfranogiad Abertawe, 'Fe- Fi- Forum', ar gyfer plant rhwng 11 ac 16 oed sy'n derbyn gofal.

Mae llawer iawn o awdurdodau lleol, yn cynnwys **Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Cyngor Sir Penfro, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Cyngor Sir Ynys Môn, Cyngor Sir Gwynedd, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir Ceredigion** a **Chyngor Caerdydd** yn cynnwys pobl ifanc wrth gyfweld a dethol eu darparwr eiriolaeth.

Mae **Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot** wedi buddsoddi mewn nifer o swyddi er mwyn cryfhau comisiynu gwasanaethau i blant a phobl ifanc. Bydd y swyddi hyn yn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael cyfle i ddylanwadu ar ddatblygiad comisiynu gwasanaethau a chyflenwi gwasanaethau penodol dan gontract. Bydd plant a phobl ifanc yn cael cyfle i fynegi barn i rywun sy'n annibynnol ar eu proses asesu ac yn annibynnol ar ddarparwr y gwasanaeth.

Mae **Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen**, ar y cyd â'i ddarparwr eiriolaeth cyfredol, NYAS, yn peilota rhaglen eiriolaeth cyfoedion. Sefydlwyd y grŵp eiriolaeth cyfoedion mewn ymateb i geisiadau gan blant a phobl ifanc oedd wedi cymryd rhan mewn digwyddiad ymgynghori NYAS, 'Gofalu am y Dyfodol'. Mae'r darparwr eiriolaeth wedi gweithio'n agos gyda'r tîm gadael gofal i gael hyd i bobl ifanc i ddilyn cymhwyster mewn eiriolaeth cyfoedion.

## 3. Mynediad at Eiriolaeth

**Daeth yr adolygiad i'r casgliad nad yw rhai o blant a phobl ifanc mwyaf agored i niwed Cymru yn ymwybodol o'u hawl statudol i eiriolwr proffesiynol annibynnol. Roedd mynediad, i raddau helaeth, yn ddibynnol ar blentyn, person ifanc neu eu gweithiwr cymdeithasol yn cyflwyno atgyfeiriad i'r gwasanaeth eiriolaeth.**

**Argymhellion yr Adolygiad**
Yn achos awdurdodau lleol, gweler argymhellion: 10, 12, 20
(www.complantcymru.org.uk/cy/eiriolaeth)

## Arfer Da

Dyma ddetholiad o sut mae rhai awdurdodau lleol yn ceisio cyflawni eu rhwymedigaethau statudol trwy fynd ati'n rhagweithiol i gynnig y gwasanaeth i blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, rhai sy'n gadael gofal a phlant mewn angen.

Mae **Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr** yn rhoi cynlluniau ar waith i ddatblygu protocolau a gweithdrefnau i sicrhau fod cynnig eiriolaeth yn awtomatig i bob plentyn a pherson ifanc pan ddeuant i gysylltiad â'r timau gwasanaethau plant. Mi fydd y cynlluniau yma yn cynnwys gofyniad y bydd eiriolaeth yn cael ei gynnig eto ym mhob cyfarfod adolygu, a bydd gofyn bod y gweithiwr cymdeithasol yn cofnodi'r trafodaethau hyn, gan gynnwys y penderfyniad a wneir gan y plentyn neu'r person ifanc o ran a ydynt am gael eiriolaeth neu beidio. Mae **Cyngor Sir Penfro** hefyd yn gofyn bod cynnig eiriolaeth yn cael ei gofnodi ar ffeil electronig y plentyn neu'r person ifanc.

Mae **Cyngor Sir Caerfyrddin** yn gwahodd pob plentyn a pherson ifanc cymwys i raglen flynyddol o ddigwyddiadau lle gallant gwrdd â'r darparwr eiriolaeth annibynnol Gweithredu dros Blant, a siarad â nhw.

Mae **Cyngor Sir Fynwy** yn sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc cymwys yn cael eu cyfeirio at eu darparwr eiriolaeth, sef Gweithredu dros Blant ar hyn o bryd, gan y Swyddog Adolygu Annibynnol. Wedyn mae'r darparwr eiriolaeth yn cysylltu â phob plentyn a pherson ifanc i esbonio'r gwasanaethau mae'n eu cynnig.

Mae **Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam** yn comisiynu gwasanaeth sy'n gwbl ar wahân gan y darparwr Second Voice, dros ben ei gontract i fodloni ei rwymedigaethau statudol, er mwyn darparu gwasanaeth cyffredinol i bob plentyn a pherson ifanc sy'n byw yn y sir.

## 4. Arweinyddiaeth Strategol

**Llywodraeth Cymru sy'n arwain y ddarpariaeth eiriolaeth broffesiynol annibynnol ar lefel strategol genedlaethol. Yn ogystal, elfen hanfodol o lwyddiant y ddarpariaeth eiriolaeth yw'r arweinyddiaeth a ddangosir gan swyddogion uwch ar lefel awdurdod lleol; arweinyddiaeth sy'n caniatáu i ddiwylliant o wrando ar leisiau a barn plant a phobl ifanc ffynnu.**

**Arfer Da**

Yn 2010 fe wnaeth **Llywodraeth Cymru** sefydlu Meic. Bwriad Meic yw i ddarparu mynediad cyffredinol at eiriolaeth i blant a phobl ifanc yng Nghymru. Mae'r llinell gymorth genedlaethol yn cynnig gwybodaeth, cyngor a chymorth ac yn medru gwneud y cysylltiadau angenrheidiol â gwasanaethau proffesiynol annibynnol rhanbarthol lleol pan fydd angen gwasanaeth personol mwy arbenigol. Mae'r gwasanaeth yma yn cael ei weld fel un o brif lwyddiannau Llywodraeth Cymru.

Mae **Cyngor Sir Caerfyrddin** yn disgwyl i gadeirydd rhianta corfforaethol, sef yr aelod arweiniol dros blant a phobl ifanc, roi arweiniad yn y maes hwn. Disgwylir hefyd i aelodau etholedig perthnasol ymweld â phlant a phobl ifanc a'r gwasanaethau y maent yn eu cyrchu, a mynychu digwyddiadau cyfranogiad ac ymgynghori yn rheolaidd.

Yn ddiweddar, mae **Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot** wedi penodi i swydd Rheolwr Comisiynu a Phartneriaeth, yn benodol ar gyfer gwasanaethau plant a phobl ifanc, ac mae ei gylch gwaith yn cynnwys hyrwyddo llais y plentyn a'r person ifanc, a sicrhau bod cyfleoedd i blant a phobl ifanc ddylanwadu ar ddatblygiad gwasanaethau.

Mae **Cyngor Sir Penfro** yn gofyn bod llefarydd y cabinet dros ddiogelu a gwasanaethau plant, sydd newydd ei benodi, weithredu fel hyrwyddwr lleol a rhoi arweiniad cryf.

Mae **Cyngor Sir Powys** yn gweithredu bwrdd rheoli prosiectau amlasiantaeth i gadw golwg ar y ddarpariaeth eiriolaeth ym Mhowys. Ariannir y gwasanaeth ym Mhowys ar y cyd gan y gwasanaethau cymdeithasol, iechyd ac addysg, ac mae'r bwrdd rheoli yn adlewyrchu'r gwahanol gyrff. Mae Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd yn chwarae rhan weithredol o ran hyrwyddo eiriolaeth ymhlith plant a phobl ifanc.

## 5. Rheoleiddio, Arolygu a Monitro

**Un o argymhellion hanfodol yr adolygiad oedd y dylid sicrhau, wrth i wasanaethau barhau i ddatblygu a thyfu, fod strwythurau priodol yn cael eu cynnal, fel bod gwasanaethau'n cael eu herio'n briodol ynghylch eu perfformiad.**

**Argymhellion yr Adolygiad**
Yn achos awdurdodau lleol, gweler argymhelliad: 7
(www.complantcymru.org.uk/cy/eiriolaeth)

**Arfer Da**

Dyma ddetholiad o sut mae rhai awdurdodau lleol yn monitro ac yn gwerthuso eu gwasanaeth eiriolaeth lleol.

Mae **Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent** yn sicrhau lle amlwg i eiriolaeth ar y panel rhianta corfforaethol, y mae cadeiryddion trosolwg a chraffu yn aelodau ohono. Bydd adroddiad eiriolaeth blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r pwyllgor craffu, yn amlinellu gweithgarwch a pherfformiad yng nghyswllt eiriolaeth.

Bydd Swyddog Cyfranogiad a Hawliau Plant yr awdurdod yn mynychu pob cyfarfod cydymffurfiaeth contractau gyda'r darparwr eiriolaeth ac yn rhoi adborth uniongyrchol i aelodau etholedig perthnasol, gan gynnwys yr aelod arweiniol dros hamdden a phobl ifanc, ac aelod arweiniol y gwasanaethau cymdeithasol.

Mi fydd **Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-Bont ar Ogwr** yn mabwysiadu, drwy ei Gomisiynydd arweiniol ar gyfer cydweithio rhanbarthol ar draws awdurdodau lleol de Cymru, model comisiynu a mesurau perfformiad sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau er mwyn sbarduno gwelliant yn ansawdd y gwasanaeth a gyflenwir dan ddarparwyr.

Gan ddefnyddio atebolrwydd ar sail canlyniadau, bydd yr awdurdod yn defnyddio 'adroddiad troi'r gornel' i archwilio effeithiolrwydd cynlluniau. Un o'r dangosyddion a ddefnyddir i ddadansoddi'r ddarpariaeth eiriolaeth fydd % y plant sy'n derbyn gofal sy'n manteisio ar eu hawl i eiriolaeth. Cesglir data tebyg ar gyfer plant mewn angen a rhai ar y gofrestr amddiffyn plant. Bydd y data a gesglir yn golygu bod modd gweithredu i ddileu unrhyw rwystrau i fynediad.

Mae **Cyngor Dinas Casnewydd** wedi sicrhau bod ei strategaeth rhianta corfforaethol yn cynnwys nifer o addewidion i bob plentyn a pherson ifanc sy'n derbyn gofal yn yr ardal. Datblygwyd y strategaeth gyda phlant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, ac mae'n adlewyrchu'r materion sydd o bwys iddynt. Eiriolaeth yw un llinyn sy'n rhedeg ar hyd yr addewidion hyn. Mae'r fforwm rhianta corfforaethol yn gyfle i aelodau etholedig gael eu briffio ar gynnydd y strategaeth ac i ba raddau y cyflawnwyd yr addewidion gan swyddogion arweiniol, a hefyd yn gyfle i aelodau godi materion sy'n ymwneud ag eiriolaeth.

# Cysylltiadau Defnyddiol

## Cysylltiadau ar gyfer yr awdurdodau lleol a gynhwyswyd

| CYNGOR | ENW CYSWLLT | MANYLION CYSWLLT |
|---|---|---|
| **Abertawe** | **Dave Howes**<br>Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd | (01792 636243)<br>dave.howes@abertawe.gov.uk |
| **Sir Benfro** | **Liz Blazey**<br>Rheolwr Cynllunio Polisi a Newid, Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant | (01437) 776199<br>liz.blazey@pembrokeshire.gov.uk |
| **Blaenau Gwent** | **Chris Bradley**<br>Rheolwr y Gwasanaeth | (01495) 355795<br>christopher.bradley@blaenau-gwent.gov.uk |
| **Bro Morgannwg** | **Colette Limbrick**<br>Rheolwr Gweithrediadol | (01446) 725229<br>climbrick@valeofglamorgan.gov.uk |
| **Caerffili** | **Beverley Mills**<br>Rheolwr Cynllunio | (01443) 864529<br>millsb@caerphilly.gov.uk |
| **Caerdydd** | **Angela Bourge**<br>Rheolwr Gweithrediadol – Adnoddau | (02920) 873817<br>a.bourge@cardiff.gov.uk |
| **Casnewydd** | **Phil Jones**<br>Rheolwr Tîm Comisiynu Contractau | (01633) 233415 |
| **Castell-nedd Port Talbot** | **Deborah Smith**<br>Rheolwr Comisiynu a Phartneriaeth | (01639)686477<br>d.smith@npt.gov.uk |

| CYNGOR | ENW CYSWLLT | MANYLION CYSWLLT |
|---|---|---|
| **Ceredigion** | **Euros Healy**<br>Cydlynydd Hawliau Plant a Phobl Ifanc a Sicrhau Ansawdd | (01545) 574107<br>euros.healy@ceredigion.gov.uk |
| **Conwy** | **Anne Flanagan**<br>Rheolwr Comisiynu Strategol | anne.flanagan@conwy.gov.uk |
| **Sir Ddinbych** | **Rhian Allen**<br>Swyddog Comisiynu | (01824) 712978<br>rhian.allen@denbighshire.gov.uk |
| **Sir y Fflint** | **Lin Hawtin**<br>Rheolwr Comisiynu | (01352) 701448<br>lin.hawtin@flintshire.gov.uk |
| **Sir Fynwy** | **Gill Cox**<br>Rheolwr y Gwasanaeth | (01633) 644770 |
| **Sir Gaerfyrddin** | **Catherine James**<br>Rheolwr y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc | (01267) 246430<br>cejames@sirgar.gov.uk |
| **Gwynedd** | **Marian Parry Hughes**<br>Uwch Reolwr y Gwasanaeth Plant a Theuluoedd | (01286) 679379<br>marianhughes@gwynedd.gov.uk |

| CYNGOR | ENW CYSWLLT | MANYLION CYSWLLT |
|---|---|---|
| **Merthyr** | **Suzanne Griffiths**<br>Pennaeth y Gwasanaethau Plant | (01685) 724693 |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | **Clare Lane**<br>Prif Swyddog Comisiynu | (01656) 642455<br>clare.lane@bridgend.gov.uk |
| **Powys** | **Amanda Lewis**<br>Pennaeth y Gwasanaethau Plant | (01597) 827084<br>amanda.lewis@powys.gov.uk |
| **Rhondda Cynon Taf** | **Jayne Thomas**<br>Rheolwr Cwynion | (01443) 425449<br>jayne.thomas@rctcbc.gov.uk |
| **Torfaen** | **Bernadette Anderton**<br>Rheolwr Grŵp, Gwasanaethau Plant | (01633) 648571<br>bernadette.anderton@ torfaen.gov.uk |
| **Wrecsam** | **Audrey Somerton Edwards,**<br>Pennaeth y Gwasanaeth – Rhianta Corfforaethol | (01978) 295360<br>audrey.somerton-edwards@ wrexham .gov.uk |
| **Ynys Môn** | **Anwen M. Hughes**<br>Pennaeth Gwasanaethau Plant | 01248) 751801<br>anwenmhughes@ ynysmon.gov.uk |

# Cysylltiadau Defnyddiol

## Cysylltiadau ar gyfer y Darparwyr Eiriolaeth a gynhwyswyd

| DARPARWR EIRIOLAETH | ENW | MANYLION CYSWLLT |
|---|---|---|
| **Gweithredu dros Blant** | Personau cyswllt gwahanol ar gyfer pob prosiect lleol. Cysylltwch â'r Pencadlys i gael yr wybodaeth ddiweddaraf | (02920) 222127 |
| **NYAS** | Personau cyswllt gwahanol ar gyfer pob prosiect lleol. Cysylltwch â'r Pencadlys i gael yr wybodaeth ddiweddaraf | (0151) 649 8700<br>main@nyas.net |
| **Tros Gynnal** | Personau cyswllt gwahanol ar gyfer pob prosiect lleol. Cysylltwch â'r Pencadlys i gael yr wybodaeth ddiweddaraf | (02920) 396974<br>www.trosgynnal.org.uk |

www.complantcymru.org.uk
www.childcomwales.org.uk